



NEWYDDION YR ACADEMI



Y CYLCHLYTHYR ROWND ROBIN O
ACADEMI DELWEDDU GENEDLAETHOL CYMRU



CROESO


DR PHILLIP WARDLE, CYFARWYDDWR ADGC



Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Taflen Newyddion Nadoligaidd. Bydd y cylchlythyr Nadoligaidd hwn yn amlygu rhai o adegau allweddol y flwyddyn ddiwethaf.

Wrth i ni agosáu at ddiwedd blwyddyn arall, mae tymor yr Ŵyl hon yn amser i ni fyfyrio a dathlu yn yr Academi. Rydym yn falch o gyflawniadau a chynnydd yr Academi yn ystod 2024 ac yn edrych ymlaen at 2025 yr ydym yn gwybod eisoes y bydd yn heriol.

Dymunwn wyliau ymlaciol i chi i gyd a Blwyddyn Newydd iach, ffyniannus.



DEWCH I WYBOD:

NEWYDDION TÎM A HYFFORDDIANT
YR ACADEMI

2

DATBLYGIADAU'R ACADEMI

3

CFRDG 2024

4-7

ARDDANGOSFA POCUS 2025

8

ADGC STRATEGAETH

9

CWRS DAN SYLW

10

UCHAFBWYNTIAU ERAILL 2024

11



NEWYDDION TÎM YR ACADEMI

HOFFEM ESTYN CROESO CYNNES I AELODAU NEWYDD EIN TÎM. RYDYM YN GYFFROUS I'W CAEL YN GWEITHIO GYDA NI!



MARIA JEANNETTE

Ymunodd Maria, ein derbynnydd newydd, â ni ym mis Tachwedd 2024. Maria fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer yr holl staff, hyfforddwr, pobl dan hyfforddiant ac ymwelwyr. ADGC Mae gan Maria gefndir cyfoethog mewn addysg blynyddoedd cynnar, ar ôl gweithio fel athrawes a chynorthwydd dysgu.

Mae Maria yn frwdfrydig ac yn angerddol am grefftio'r sgiliau hyn ynghyd â'i sgiliau trefnu, a rhyngbersonol, sy'n ei gwneud yn ffit perffaith i'n tîm.



DANE EVANS

Mae Dane wedi ymuno â phrosiect RISP (Gaffael y System Gwybodeg Radioleg) yn ddiweddar fel Gweinyddwr PACS, gan weithio rhwng Ysbyty Tywysoges Cymru (YTC) ac Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru (ADGC). Yn ADGC, mae'n cydweithio â'n Hyfforddwr i ddatblygu archifau addysgu a gwella ein hadnoddau addysgol.

Yn bwysig, mae profiad Dane fel Radiograffydd MRI/CT yn YTC yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ei ymrwymiad i ADGC ac edrychwn ymlaen at weld y llyfrgell addysgu yn ehangu gyda'i fewnbwn.

NEWYDDION HYFFORDDIANT

Ar ddechrau mis Tachwedd 2024, croesawodd ADGC Dr Rhys Thomas (Radiolegydd Ymgynghorol, BIPCAF) a Dr Alexander Holborow (Radioleg Ymgynghorol, BIPBA) i'n Cyfadran Hyfforddi i gyflwyno sesiynau hyfforddi cyhyrsgerbydol.

Mae Rhys ac Alex ill dau wedi cyflawni CCT fel hyfforddeion Cymreig ers i'r Academi agor, bydd eu mewnwelediad yn ychwanegiad gwych i'n hyfforddiant.

DATBLYGIADAU'R ACADEMI

UWCHRADDIO ADEILADAU CYFFROUS YN YR ACADEMI

Mae ein toledau ar y llawr gwaelod wedi cael eu hadnewyddu yn ein Hystafell Uwchsain gan ddiweddarau ein cyfleusterau ar gyfer ein cleifion.

Diolch yn arbennig i Andy Jones o ADJ Architects Ltd, David Jones a'r tîm o Gynllunio Cyfalaf BIPCTM, a Nicky Rees, Stefan Lukienski, a'r tîm cyfan o First Grade Projects.

Er mawr ryddhad i dîm cyfan yr Academi, rydym wedi disodli'r barrau. Mae'r risg gynyddol hon o ran diogelwch wedi bod yn bryder i Phillip a Tracy ac mae'n wych cael barrau sy'n gwneud mwy o synnwyr.

Yn ogystal, mae eu goleuadau coch a gwyrdd yn edrych yn eithaf Nadoligaidd ar y nosweithiau gaeafol hyn!



RYDYM YN GWEITHIO'N BARHAUS AR WELLA EIN CYFLEUSTERAU I SICRHAU'R PROFIAID GORAU POSIBL YN ACADEMI DELWEDDU GENEDLAETHOL CYMRU.



CYNHADLEDD FLYNYDDOL Y RHAGLEN DDELWEDDU GENEDLAETHOL 2024

Yn dilyn llwyddiant Cynhadledd Flynyddol gyntaf y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol (NIP) yn Stadiwm Dinas Caerdydd ym mis Tachwedd 2023, daeth NIP ac Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru (ADGC) at ei gilydd unwaith eto. Eleni, cynhaliwyd yr ail gynhadledd flynyddol yn Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru ac mae'n sefydlu'r traddodiad o ddathlu Diwrnod Radiograffeg y Byd.

Cymerodd dros 80 o gynrychiolwyr ran yn bersonol yn yr Academi a rhithwir. Cafwyd cyfres o sgysiau craff yn canolbwyntio ar feithrin diwylliant o barch. Yr uchafbwynt oedd cyflwyniad y Prif Siaradwr, "Why Civility Matters in a Complex World," a draddodwyd gan Dr Chris Turner. Canmolwyd ei gyflwyniad yn eang am fod yn rhagorol ac yn ysgogi'r meddwl.



**I GAEL RHAGOR O WYBODAETH AM DR TURNER A CIVILITY SAVES LIVES, EWCH I'W GWEFAN:
[HTTPS://WWW.CIVILITYSAVESLIVES.COM/](https://www.civilitysaveslives.com/)**

Mwynhaodd y cynrychiolwyr gyflwyniadau gan ein noddwyr Platinwm ac Aur–Philips, GE Healthcare, a Canon Medical Systems. Bu cydweithwyr yn GIG Cymru hefyd yn rhannu eu profiadau, gan ddarparu mewnwelediad gwerthfawr i daith gweithwyr proffesiynol delweddu, gan gydweddu â thema ein Gweithlu.





CYNHADLEDD FLYNYDDOL Y RHAGLEN DDELWEDDU GENEDLAETHOL 2024

RYDYM YN ESTYN EIN DIOLCHIADAU I'N HOLL NODDWYR. GWNAETH EU
CEFNOGAETH HAEL Y DIGWYDDIAD HWN YN BOSIBL.



PHILIPS



CANON MEDICAL LIMITED



GE HEALTHCARE



4WAYS



TMC



EVERLIGHT RADIOLOGY



AIDOC



SOCIETY OF RADIOGRAPHERS



MIS HEALTHCARE



ANNALISE.AI



HEALTHCARE SCIENCE CYMRU



QURE.AI



GLEAMER



LIFE SCIENCES HUB



INTELLIGENT ULTRASOUND



CYNHADLEDD FLYNYDDOL Y RHAGLEN DDELWEDDU GENEDLAETHOL 2024

Cafodd mynychwyr ar y safle gyfle i ymlacio yn ein hystafell llesiant, gan fwynhau sesiynau yoga cadair a thylino aciwbigo wrth eistedd. Cafodd y gweithgareddau ymlaciol hyn eu noddi yn hael gan ein noddwyr digwyddiad Arian, 4ways Healthcare a Telemedicine Clinic (TMC). Yn ogystal, gallai cynrychiolwyr, noddwyr a staff ddal rhai propiau a thynnu lluniau tîm yn y Selfie Pod, a noddir yn garedig gan Everlight Radiology.



I WELD YR HOLL LUNIAU
O'R BWTH HUNLUN,
[CLICIWCH YMA](#)



Mae adborth gan gynrychiolwyr wedi bod yn hynod gadarnhaol, gyda 100% o'r ymatebwyr yn mynegi awydd i fynychu cynhadledd y flwyddyn nesaf. Mae'n bleser gennym gyhoeddi y bydd y gynhadledd yn dychwelyd ym mis Tachwedd 2025 - dyddiad i'w gadarnhau. Cofiwch gadw llygad ar ein cylchlythyr cyfryngau cymdeithasol a'r Flwyddyn Newydd am gyhoeddiadau pellach!





CYNHADLEDD FLYNYDDOL Y RHAGLEN DDELWEDDU GENEDLAETHOL 2024





ARDDANGOSFA UWCHSAIN PWYNT GOFAL SYDD AR DDOD

DYDD MAWRTH 21AIN A DYDD MERCHER 22AIN IONAWR 2025

Mae uwchsain pwynt gofal (POCUS) yn cyfeirio at y defnydd o ddyfeisiadau uwchsain gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol wrth erchwyn gwely'r claf neu'n agos ato. Yn wahanol i uwchsain traddodiadol, a berfformir yn aml mewn adrannau delweddu arbenigol, mae POCUS yn galluogi delweddu ar unwaith i gynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau clinigol. Dyfeisiau bach, cludadwy yw'r sganwyr uwchsain fel arfer, a ddefnyddir gan amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar draws gwahanol leoliadau meddygol i ateb cwestiynau ie/na.

Ar ddydd Mawrth, 21 Ionawr, a dydd Mercher, 22 Ionawr, bydd NIAW yn cynnal Arddangosfa Uwchsain Pwynt Gofal (POCUS) yn yr Academi. Bydd y digwyddiad hwn yn gyfle gwych i gynrychiolwyr ymgysylltu â chyflenwyr blaenllaw, i ddefnyddio ac asesu peiriannau uwchsain sy'n addas ar gyfer POCUS a mynychu sesiynau arddangos llawn gwybodaeth. Mae'n ddelfrydol helpu i lywio penderfyniadau caffael yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae mynychwyr yn cael cyfle i gwrdd â chynrychiolwyr o amrywiaeth o arddangoswyr, gan gynnwys:



GE HealthCare



Edrychwn ymlaen at eich croesawu i beth sy'n addo i fod yn arddangosfa graff a deniadol!

I GAEL GWYBODAETH AM GOFRESTRU, SGANIWCH Y COD QR A DDARPERIR.



ACADEMI DDELWEDDU GENEDLAETHOL CYMRU: STRATEGAETH TAIR BLYNEDD



Cyhoeddwyd Strategaeth Tair Blynedd Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru (ADGC) (2024-2027) yn gynharach eleni. Mae'r cynllun hwn sy'n edrych i'r dyfodol yn amlinellu ein gweledigaeth, ein cenhadaeth, a'n blaenoriaethau strategol i wella gwasanaethau delweddu diagnostig ar draws GIG Cymru. Gallwch archwilio'r strategaeth lawn ar ein gwefan.

EIN GWELEDIGAETH A'N CENHADAETH

Yn ADGC, rydym yn ymdrechu i fod y canolbwynt ar gyfer hyfforddiant delweddu diagnostig, arloesi ac ymchwil. Ein cenhadaeth yw grymuso'r gweithlu delweddu diagnostig drwy roi'r offer, yr hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ysgogi gwelliannau yng ngwasanaethau'r GIG wrth gyflawni eu nodau proffesiynol ac academiaidd.

NODAU STRATEGOL

Mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar bedwar nod craidd:

- **Hyfforddiant a Datblygu:**

Darparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer y gweithlu delweddu diagnostig.

- **Arloesedd ac Ymchwil:**

Hwyluso ymchwil flaengar ac annog dilyn arferion arloesol.

- **Cydweithio:**

Gweithio mewn partneriaeth â GIG Cymru, y byd academiaidd, a diwydiant i rannu gwybodaeth ac adnoddau.

- **Gwella ansawdd:**

Gwella ansawdd gwasanaeth trwy welliant parhaus ac ardystiad ISO 9001 ar gyfer rheoli ansawdd.

DARLLENWCH Y STRATEGAETH LAWN AR EIN GWEFAN I DDYSGU MWY AM EIN NODAU A'N MENTRAU. DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH BARHAUS I ADGC!





CWRS DAN SYLW

CWRS CXR

Yn 2025 bydd cwrs Pelydr-X o'r Frest (CXR) ADGC yn dychwelyd i'w fformat 2 ddiwrnod, wyneb yn wyneb gwreiddiol yn yr Academi, a ddyluniwyd i ddechrau fel cwrs 2 ddiwrnod wyneb yn wyneb, a chafodd sesiynau 2019 bob amser adborth rhagorol. Yn ystod y pandemig COVID-19, fe wnaethom addasu i fodel hybrid ar gyfer diogelwch, gydag ymgeiswyr yn gwylio darlithoedd wedi'u recordio ymlaen llaw ar y diwrnod cyntaf ac yn mynychu gweithdai ar yr ail ddiwrnod yn yr Academi.

Nawr, rydym yn falch o ddychwelyd i'r fformat 2-ddiwrnod llawn. Bydd cynrychiolwyr yn gwylio darlithoedd wedi'u recordio ymlaen llaw ac yna'n cymryd rhan mewn dau ddiwrnod llawn o weithdai yn yr Academi. Dyma'r tro cyntaf mewn pum mlynedd y bydd y cwrs yn rhedeg fel y bwriadwyd yn wreiddiol.

TREFNWDYD GAN:



DR ALEKSANDER MARIN
CAVUHB



DR GRANT GRIFFITHS
CTMUHB



DR TIMOTHY PEARCE
CTMUHB



DR TISHI NINAN
SBUHB

MAE ADGC YN BRYSUR YN CYNLLUNIO'R CYRSIAU CXR AR
GYFER GWANWYN A HYDREF 2025.

I FYNEGI EICH DIDDORDEB A BOD YMHLITH Y CYNTAF I
DDERBYN MANYLION COFRESTRU, COFRESTRWCH AR
GYFER EIN FFURFLEN DIDDORDEB CWRS OCHR YN OCHR
Â CHYRSIAU ERAILL SYDD AR GAEL.



"Hoff iawn o'r dull seiliedig ar achosion o ddefnyddio
achosion CXR go iawn i ddangos y gwahanol
ganfyddiadau a phatrymau a phatholegau yn hytrach
na fflicio trwy sleidiau yn unig"

MEDI 2024 MYNYCHWR



UCHAFBWyNTIAU ERAILL 2024:



CWRS MEDDYGAETH FRYS - CHWEFROR, EBRILL, AWST A RHAGFYR 2024



POCUS CWRS - MAWRTH, MEHEFIN AC HYDREF 2024




CWRS CANWLEIDDIO - MEDI 2024



CWRS COLONOSGOPI CT - HYDREF 2024



DIWRNOD ASTUDIO ONCOLEG - RHAGFYR 2024



Gan ddymuno pob un ohonoch

NADOLIG LLAWEN

o

Academi Ddelweddu Genedlaethol **Cymru**